

Croeso i gylchlythyr trwyddedu rhywogaethau Cyfoeth Naturiol Cymru

Mae'r gwanwyn yma ac rydym yn gwybod bod llawer ohonoch yn paratoi ar gyfer y tymor arolwg sydd i ddod. Mae'r tîm ar hyn o bryd yn derbyn nifer fawr iawn o geisiadau, mae hyn a cyfuno â recriwtio swydd gwag yn golygu ein bod yn cymryd mwy o amser i brosesu rhai ceisiadau. Rydym yn dal yn ceisio prosesu ceisiadau o fewn ein amser penodedig ond gall rhai gymryd ychydig hirach. Rydym yn gwerthfawrogi eich amynedd.

Dogfen ymgynghorol Awdurdod Lleol

Mewn ymateb i adborth cwsmeriaid rydym wedi adolygu'r ffurflen ymgynghori Awdurdod Lleol i ganiatáu i lofnodion electronig gael eu mewnosod gan swyddogion awdurdodi. Dylai hyn symleiddio'r broses ac yn dileu'r angen am lofnodion gwlyb swyddogion cynllunio yr awdurdod yn y dyfodol. Mae'r ffurflen ar gael ar ein gwefan yn awr.

Os oes gennych awgrymiadau i symleiddio'r broses neu wella ein ffurflenni rhowch wybod i ni ar

trwyddedrhywogaeth@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk

Cymorth i ni ddarparu gwasanaeth gwell

Rydym yn derbyn nifer fawr o alwadau ffôn a negeseuon e-bost bob dydd ac rydym yn gwneud pob ymdrech i ymateb i'n cwsmeriaid mewn modd amserol. Er mwyn ein helpu i wella ein gwasanaeth rydym yn gofyn am eich cymorth.

Pan fyddwch yn cysylltu â ni os gwelwch yn dda defnyddiwch eich cyfeirnod trwydded unigryw. Bydd hyn ar eich cydnabyddiaeth e-bost a phob gohebiaeth ddilynol. Bydd defnyddio eich cyfeirnod yn ein galluogi i adfer eich cofnodion yn gyflymach ac yn ein helpu i ddarparu gwasanaeth gwell.

Gwella ein dealltwriaeth

Rydym yn cymryd diddordeb yn eich gwaith. Os ydych yn credu bod gennych gyfle dysgu sy'n addas ar gyfer aelodau'r tîm a fydd yn ein helpu i ddeall yn well y gwaith yr ydych yn ymgymryd, a'r materion neu rwystrau yr ydych yn delio â rhowch wybod i ni. Rydym bob amser yn awyddus i wella ein gwybodaeth a'n dealltwriaeth.

Riportio troseddau bywyd gwyllt

Rydym yn derbyn nifer fawr o alwadau ffôn gan y cyhoedd a chwsmeriaid sy'n ceisio cael cyngor ar droseddau bywyd gwyllt.

Nid yw Cyfoeth Naturiol Cymru yn delio gyda troseddau bywyd gwyllt, ein hunig rôl yw cynghori'r heddlu pan ofynnir i ni wneud hynny.

Ein cyngor i gwsmeriaid yw:-

- Rhowch weubod i'r heddlu am ddigwyddiadau â amheuir gan ddefnyddio'r system 101.
- Rhowch gymaint o wybodaeth ag y gallwch a gofynwch am rhif digwyddiad, mae hyn yn sicrhau bod y digwyddiad yn cael ei gofnodi ar gronfa ddata'r heddlu.
- Os yw'r digwyddiad yn ymwneud â trwydded rhywogaeth gadewch i'r Tîm Trwyddedu Rhywogaethau CNC wybod.
- Mewn digwyddiad o wenwyno bywyd gwyllt ffoniwch 0800 321 600 neu e-bostiwch y manylion at: Wildlife@wales.gsi.gov.uk

Yn olaf, arhoswch yn ddiogel a peidiwch a rhoi eich hunain mewn perygl o anaf neu niwed.



Dylid cyfeirio pob ymholiad trwy'r Adran Ymholiadau Cyfoeth Naturiol Cymru ar 03000653000.